# Strategaeth Gwasanaeth y Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf

# 2026 – 2030

## Cynnwys

**Strategaeth Gwasanaeth y Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf** .................... 1
**2026 – 2030** .................... 1
**Cyflwyniad** .................... 2
**Ein Gwasanaeth Llyfrgelloedd** .................... 2
**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015** .................... 3
**Cynllun Corfforaethol Cyngor Rhondda Cynon Taf 2024 – 2030** .................... 5
**Myfyrio ar Ein Strategaeth 2022 – 25** .................... 7
**Ein Safonau** .................... 7
**Llyfrgelloedd Cysylltiedig – Cynigion Llyfrgelloedd Cyffredinol** .................... 7
**Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf - Cysylltiedig** .................... 8
**Dywedon ni, Gwnaethon ni** .................... 9
Ein Llyfrgelloedd mewn Rhifau .................... 16
**Ein Blaenoriaethau Strategol Allweddol** .................... 18
**Cadw'r Gwasanaeth yn Berthnasol** .................... 18
**Gwella Profiadau yn y Llyfrgell** .................... 18
**Datblygu Gwasanaethau sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol** .................... 18
**Deilliannau ac Effeithiau:** .................... 21
**Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo** .................... 21

# Cyflwyniad

Mae trigolion Rhondda Cynon Taf yn gwerthfawrogi eu llyfrgelloedd lleol ac yn eu hystyried yn fannau diogel a dibynadwy. Maen nhw'n gweld bod staff ein llyfrgelloedd yn gyfeillgar ac yn wybodus ac yn gwerthfawrogi'r nifer o wasanaethau sydd ar gael. Amlygodd yr Arolwg Bodlonrwydd Cwsmeriaid (Oedolion), a gafodd ei gynnal ym mis Mawrth 2025, sut roedd llyfrgelloedd wedi cyflawni ymrwymiadau yn y Strategaeth Llyfrgelloedd a'r Cynllun Gweithredu 2022-2025 blaenorol, ac wedi llywio ac arwain, ynghyd â ffactorau eraill, y Strategaeth Llyfrgelloedd newydd 2026-2030 yma.

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (CBSRhCT) yn cynnwys 3 Llyfrgell Ardal sy'n gartref i gasgliadau hanes lleol a 10 Llyfrgell Gangen. Mae'r llyfrgelloedd yn fannau cymunedol bywiog, sy'n cynnig gwasanaethau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i ddarparu llyfrau. Maen nhw'n cynnig achlysuron a gweithgareddau yn y gymuned, hybiau bancio, cyfrifiaduron mynediad cyhoeddus a Wi-Fi am ddim, a gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys cefnogaeth i wneud cais am Fathodyn Glas parcio i bobl anabl, ymholiadau Treth y Cyngor, Budd-daliadau Tai neu docyn bws trwy'r gwasanaeth UnIBobUn.

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 'i ddarparu gwasanaeth llyfrgelloedd cynhwysfawr ac effeithlon i bawb".

Nid yw'r Ddeddf yn nodi sut y dylid cyflawni'r ddarpariaeth yma na sut y dylai ddiwallu anghenion cymuned ac eithrio y dylen nhw:

- ystyried annog oedolion a phlant i wneud defnydd llawn o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd
- rhoi benthyg llyfrau a deunydd printiedig arall yn rhad ac am ddim i'r rhai sy'n byw, yn gweithio ac yn astudio yn yr ardal.

Yng Nghymru mae'r ddyletswydd 'i oruchwylio a hyrwyddo gwelliant yn y gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus a ddarperir drwy awdurdodau lleol' wedi'i datganoli i'r Gweinidog perthnasol yn Llywodraeth Cymru ers 2002 ac mae'r ddyletswydd yma wedi'i chyflawni drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

# Ein Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi cynnal model cymysg o ran cyflenwi'r gwasanaeth er gwaethaf y pwysau ar gyllid awdurdodau lleol ledled Cymru, sy'n cynnwys:

- 3 Llyfrgell Ardal (Aberdâr, Pontypridd a Threorci)

- 10 llyfrgell gangen (Abercynon, Aberpennar, Glynrhedynog, Hirwaun, Llantrisant, Pentre'r Eglwys, Pont-y-clun, y Porth, Rhydfelen a Thonypandy).
- Mae saith o'n llyfrgelloedd yn Ganolfannau Cydnerthedd y Gymuned, gan gefnogi Rhwydweithiau Cymdogaeth trwy gydlynu cymorth i drigolion a chynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol o'r lleoliadau yma. Y Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned yw: Aberdâr, Pentre'r Eglwys (Yr Olwg), Glynrhedynog (Y Hwb), Llantrisant, Aberpennar (Canolfan Pennar), Porth, a Phontypridd, yn ogystal â Hwb Diwylliannol yn Llyfrgell Treorci ochr yn ochr â Theatr y Parc a'r Dâr
- Gwasanaeth Gartref i drigolion sy'n methu defnyddio llyfrgelloedd sefydlog
- Gwasanaeth Llyfrgelloedd i Ysgolion sy'n cynnig gwasanaeth benthyca a chynghori i bob ysgol gynradd.
- Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifainc sy'n datblygu rhaglenni a gweithgareddau sy'n hyrwyddo darllen a llythrennedd gwybodaeth ymysg pobl ifainc.
- Mae e-lyfrau, e-lyfrau llafar, e-gylchgronau ac e-bapurau newydd ar gael ar-lein bob amser i'n holl drigolion.
- Mynediad at adnoddau ar-lein megis Transparent Languages Online, Theory TestPro, Ancestry.com a FindMyPast.com
- Casgliadau astudiaethau lleol yn llyfrgelloedd Aberdâr, Pontypridd a Threorci.
- Mynediad ar-lein at ddeunyddiau astudiaethau lleol, recordiadau hanes llafar a chasgliad ffotograffig hanesyddol drwy wefan 'Ein Treftadaeth' (Ein Treftadaeth Rhondda Cynon Taf)
- Mynediad at fannau cyfarfod cymunedol
- Mynediad at dechnoleg ddigidol

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Nod hirdymor Llywodraeth Cymru yw adeiladu Cymru sy'n ein helpu ni i gyd i weithio gyda'n gilydd i wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant. Mae hyn er budd ein pobl, ein planed, nawr, ac yn y dyfodol, drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r ddeddf yn cynnwys 7 nod lles cysylltiedig i Gymru:

**Cymru lewyrchus**

Mae ein llyfrgelloedd yn cefnogi cenedl fedrus a llewyrchus drwy:

- Ddarparu mynediad am ddim i adnoddau digidol, Wi-Fi, a thechnoleg.
- Cynnig cyfleoedd dysgu, rhaglenni llythrennedd, a chymorth cyflogadwyedd.

- Cefnogi entrepreneuriaid drwy wybodaeth, gweithle ac offer digidol.
- Helpu pobl i ennill sgiliau hanfodol sy'n gwella rhagolygon swyddi a dysgu gydol oes.

**Cymru gydnerth**

Mae ein llyfrgelloedd yn cyfrannu at gydnerthedd amgylcheddol a chymunedol drwy:

- Hyrwyddo gwybodaeth am gynaliadwyedd, llythrennedd hinsawdd, ac adnoddau byw gwyrdd.
- Cynnal gweithdai ac achlysuron ar ymwybyddiaeth amgylcheddol.
- Gweithredu fel canolfannau lleol dibynadwy sy'n aros ar agor ac yn gefnogol yn ystod argyfyngau neu newid.

**Cymru iachach**

Mae ein llyfrgelloedd yn helpu i wella lles corfforol a meddyliol drwy:

- Gynnig gwybodaeth iechyd, llyfrau hunangymorth a rhaglenni lles.
- Cynnal grwpiau cymdeithasol sy'n lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd.
- Darparu mannau diogel, rhad ac am ddim a chynhwysol sy'n cefnogi iechyd meddwl cadarnhaol.
- Gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau iechyd i ddarparu cyngor, gwasanaeth cyfeirio a chefnogaeth.

**Cymru sy’n fwy cyfartal**

Mae ein llyfrgelloedd yn hyrwyddo cydraddoldeb a thegwch drwy:

- Darparu mynediad am ddim at wybodaeth, gwasanaethau digidol a mannau i bawb.
- Cefnogi grwpiau sydd fwyaf mewn perygl o gael eu hallgáu'n ddigidol neu'n gymdeithasol.
- Cynnig casgliadau cynhwysol sy'n adlewyrchu cymunedau amrywiol.
- Sicrhau bod gan bawb gyfleoedd cyfartal i ddysgu, cysylltu a chymryd rhan.

**Cymru o gymunedau mwy cydlynus**

Mae ein llyfrgelloedd yn cryfhau cydlyniant cymunedol drwy:

- Weithredu fel mannau cyhoeddus diogel, croesawgar a chynhwysol.
- Dod â phobl ynghyd trwy weithgareddau, achlysuron a phrofiadau a rennir.
- Cefnogi ymgysylltiad cymunedol, gwirfoddoli a chysylltu.
- Helpu pobl i feithrin ymddiriedaeth, datblygu perthnasoedd, a theimlo eu bod yn perthyn.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Mae ein llyfrgelloedd yn hyrwyddo diwylliant a'r iaith Gymraeg drwy:

- Gynnig llyfrau, e-lyfrau, e-lyfrau sain, e-gylchgronau, adnoddau dysgu a gweithgareddau Cymraeg.
- Cefnogi treftadaeth leol, adrodd straeon ac achlysuron diwylliannol.
- Arddangos creadigrwydd lleol ac yn dathlu diwylliannau amrywiol.
- Cadw a galluogi mynediad at gasgliadau hanes lleol.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Mae ein llyfrgelloedd yn helpu Cymru i weithredu'n gyfrifol mewn cyd-destun byd-eang drwy:

- Hyrwyddo dinasyddiaeth, ymwybyddiaeth a dealltwriaeth fyd-eang.
- Cefnogi gwaith ar ddad-wladychiaeth, cynrychiolaeth, a chasgliadau cynhwysol.
- Annog ymddygiadau cynaliadwy drwy wybodaeth a mentrau cymunedol.
- Darparu mynediad at wybodaeth a safbwyntiau ledled y byd.

# Cynllun Corfforaethol Cyngor Rhondda Cynon Taf 2024 – 2030

Mae Cynllun Corfforaethol CBSRhCT 2024-2030: Gweithio gyda'n Cymunedau' wedi nodi pedwar Amcan Llesiant y mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn cyfrannu atyn nhw:

**Pobl a Chymunedau**: cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau Rhondda Cynon Taf i fyw bywydau diogel, iach a boddhaus;

- Mynediad at Wybodaeth a Chyngor: Mae llyfrgelloedd yn darparu mynediad am ddim at lyfrau, adnoddau digidol, a gwybodaeth ddibynadwy sy'n helpu trigolion i wneud penderfyniadau gwybodus am iechyd, lles a diogelwch.

- Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned: Maen nhw'n gweithredu fel mannau diogel a chroesawgar ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gan leihau unigedd a meithrin cydlyniant cymunedol.
- Datblygu Sgiliau: Drwy hyfforddiant sgiliau digidol, cymorth cyflogaeth, a rhaglenni dysgu gydol oes, mae llyfrgelloedd yn grymuso unigolion i wella eu rhagolygon a'u hyder.

**Gwaith a Busnes** – Helpu i gryfhau a thyfu economi Rhondda Cynon Taf.

- Adnoddau Chwilio am Swydd: Mynediad am ddim at y rhyngrwyd, cymorth ysgrifennu CV, a mynediad at gymorth trydydd parti i drigolion sy'n chwilio am waith.
- Gwella sgiliau'r gweithlu: Mae llyfrgelloedd yn darparu mynediad at adnoddau ac offer dysgu ar-lein, gan gefnogi datblygiad proffesiynol.

**Byd Natur a'r Amgylchedd** – Rhondda Cynon Taf gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.

- Arferion Cynaliadwy: Mae llyfrgelloedd yn hyrwyddo ailgylchu, effeithlonrwydd ynni, a gweithrediadau ecogyfeillgar.
- Addysg ynghylch yr Amgylchedd: Mae achlysuron ac adnoddau ar newid yn yr hinsawdd, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd yn codi ymwybyddiaeth.
- Mentrau Cymunedol: Mae ein llyfrgelloedd yn cynnal achlysuron a gweithgareddau i hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol, ailgylchu ac maen nhw'n lleoliadau i gasglu bagiau ailgylchu ar gyfer trigolion neu fusnesau.

**Diwylliant, Treftadaeth a'r Gymraeg** – Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol Rhondda Cynon Taf.

- Hyrwyddo'r Gymraeg: Mae llyfrgelloedd yn cynnig llyfrau Cymraeg, yn cynnal dosbarthiadau iaith, a sesiynau stori dwyieithog. Mae'n cydnabod hawl pobl i gael mynediad at wasanaethau yn y Gymraeg.
- Hwb Diwylliannol Treorci: Gweithio ochr yn ochr â Theatr y Parc a'r Dâr i ddarparu cyfleoedd creadigol a chefnogi'r gymuned greadigol.
- Achlysuron diwylliannol: Mae arddangosfeydd, sgyrsiau gan awduron, a phrosiectau hanes lleol yn cadw ac yn rhannu treftadaeth Rhondda Cynon Taf.
- Mannau Creadigol: Mae llyfrgelloedd yn cefnogi celfyddydau, crefftau a mynegiant diwylliannol trwy weithdai a pherfformiadau.

Mae llyfrgelloedd yn bartner cyflawni canolog wrth gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2024–2030. Drwy wasanaethau hygyrch sy'n canolbwyntio ar bobl a rhaglenni dan arweiniad y gymuned, maen nhw'n cyfrannu'n uniongyrchol at bob un o'r pedwar Amcan Llesiant ac yn dangos cydymffurfiaeth gref â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fel y dangoswyd yn flaenorol.

# Myfyrio ar Ein Strategaeth 2022 – 25

## Ein Safonau

Daeth y 'Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn Cefnogi Cymunedau Cynaliadwy a Chysylltiedig' Llywodraeth Cymru: seithfed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i rym ar 1 Ebrill 2025; felly 2026 fydd y flwyddyn gyntaf y bydd adroddiad yn seiliedig ar y fframwaith newydd yma'n cael ei lunio. Mae'r fframwaith newydd yn cynnwys 13 hawl craidd ac 11 dangosydd ansawdd, o'i gymharu â 12 hawl craidd, a 15 dangosydd ansawdd a oedd yn bresennol yn y fframwaith blaenorol.

Ar gyfer asesiad 2024/25, fe wnaeth Llyfrgelloedd y Cyngor fodloni pob un o'r 13 hawl graidd yn llawn ac o'r 5 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, cafodd 3 eu cyflawni'n llawn ac 1 yn rhannol.

## Llyfrgelloedd Cysylltiedig – Cynigion Llyfrgelloedd Cyffredinol

Y Cynigion Llyfrgelloedd Cyffredinol yw'r pethau hanfodol y mae pob llyfrgell yn eu gwneud.

Mae'r cynigion wedi'u datblygu gan Libraries Connected, elusen annibynnol sy'n cefnogi, hyrwyddo a chynrychioli llyfrgelloedd cyhoeddus, gyda chydweithrediad arweinwyr llyfrgelloedd, gweithwyr rheng flaen a defnyddwyr, ac maen nhw'n darparu fframwaith ar gyfer gwasanaeth llyfrgell o ansawdd uchel ac yn dangos pŵer llyfrgelloedd i gyfoethogi bywydau. Mae Cynigion Llyfrgelloedd Cyffredinol yn helpu i adeiladu gwasanaeth llyfrgell cyson ledled y DU gyfan ond maen nhw'n ddigon hyblyg i lyfrgelloedd lleol ymateb i anghenion eu cymunedau.

Ar hyn o bryd mae pedwar Cynnig Llyfrgell Gyffredinol:

- **Diwylliant a Chreadigrwydd** - Galluogi cymunedau lleol i fwynhau profiadau celfyddydol a diwylliannol o ansawdd uchel drwy lyfrgelloedd.
- **Iechyd a Lles** - Cefnogi iechyd a lles pobl a chymunedau lleol trwy wasanaethau sy'n hysbysu, ymgysylltu a chysylltu.

- **Gwybodaeth a Digidol** - Sicrhau bod modd i gymunedau gael mynediad at wybodaeth a gwasanaethau digidol o safon, dysgu sgiliau digidol newydd a theimlo'n ddiogel ar-lein.
- **Darllen** - Adeiladu cymdeithas lythrennog a hyderus drwy ddatblygu, cyflwyno a hyrwyddo gweithgareddau darllen creadigol mewn llyfrgelloedd.

# Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf - Cysylltiedig

Mae Llyfrgelloedd CBSRhCT yn cyfrannu at y nodau a gaiff eu nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllun Corfforaethol CBSCRhCT a'r Cynnig Llyfrgelloedd Cyffredinol drwy ddarparu mynediad at fannau sy'n canolbwyntio ar y gymuned ac sy'n cynnig dysgu gydol oes trwy lyfrau a gwybodaeth ar-lein, gan fod yn gynhwysol yn ddigidol trwy gynnig mynediad am ddim i'r rhyngrwyd a thrwy weithio gyda phartneriaid ar ddarparu a hwyluso cyfleoedd dysgu a gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl o bob oed trwy gyflawni'r Nodau Strategol canlynol:

## Diwylliant a Chreadigrwydd:

#### Treftadaeth Ddiwylliannol (1)

- Mae llyfrgelloedd yn cefnogi Strategaeth Dreftadaeth y Cyngor drwy weithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol i bob oed, amddiffyn casgliadau lleol, a sicrhau bod modd i drigolion gael mynediad at ddeunyddiau sy'n adlewyrchu hanes lleol.

#### Cynwysoldeb (2)

- Mae llyfrgelloedd yn ymrwymo i ddad-wladychu casgliadau drwy adolygu'r hyn sydd gyda nhw, amrywio lleisiau pwy sy'n cael eu cynrychioli, a gwella disgrifiadau a dosbarthiad i fod yn gywir, yn gynhwysol, ac yn sensitif yn ddiwylliannol.

## Iechyd a Lles

#### Cysylltiad Cymunedol (3)

- Mae llyfrgelloedd yn cynnig lleoedd diogel a chroesawgar lle mae modd i bobl gwrdd, cael mynediad at wasanaethau lleol, datblygu sgiliau newydd, a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n meithrin cydnerthedd cymdeithasol ac economaidd.

#### Cynaliadwyedd (4)

- Nod llyfrgelloedd yw lleihau effaith amgylcheddol drwy ddefnyddio adnoddau'n effeithlon, ailgylchu, cyd-leoli gwasanaethau, a gweithio gyda phartneriaid i ymgorffori arferion cynaliadwy.

## Gwybodaeth a Digidol

#### Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (5)

- Mae llyfrgelloedd yn helpu i leihau unigedd trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth. Maen nhw'n grymuso unigolion – gan gynnwys cynhalwyr di-dâl a grwpiau cymunedol – i wneud penderfyniadau gwybodus a dod o hyd i'r cymorth sydd ei angen arnyn nhw.

#### Digido (6)

- Mae cyfleusterau TG modern yn rhoi mynediad i bawb at wybodaeth ar-lein, hyd yn oed y rhai heb eu dyfeisiau na'u sgiliau digidol eu hunain. Mae modd i staff sydd wedi'u hyfforddi helpu pobl i ddysgu a defnyddio gwasanaethau digidol mewn byd sy'n gynyddol ddigidol.

## Darllen

#### Darllen (7)

- Mae llyfrgelloedd yn darparu casgliad helaeth o lyfrau ffuglen a ffeithiol ac e-lyfrau i annog darllen rheolaidd sy'n cefnogi lles trwy leihau straen, gwella iechyd meddwl, hybu gwybodaeth, cryfhau cof a chadw a swyddogaeth yr ymennydd, a gwella geirfa, empathi, ffocws a chanolbwyntio.

# Dywedon ni, Gwnaethon ni

Roedd rhai o'r ymrwymiadau yn ein strategaeth flaenorol yn cynnwys:

| Strategaeth 2022-2025 | Yr hyn a wnaethon ni | Cysylltiad |
|---|---|---|
| **Nodi technolegau newydd i ddiwallu anghenion cwsmeriaid newydd.** | Gweithio gyda Gwasanaeth Treftadaeth y Cyngor i ddarparu profiad defnyddiwr gan ddefnyddio clustffonau VR.<br><br>Yn rhan o brosiect Diwygio Delweddau a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, prynwyd 4 recordydd hanes llafar a chamera digidol i gofnodi atgofion personol defnyddwyr y llyfrgell ar gyfer yr archif hanes lleol. | Diwylliant a Chreadigrwydd<br>Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol |


| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd System Rheoli Llyfrgelloedd (LMS) newydd o'r enw 'Spydus' ym mis Rhagfyr 2025. Mae hon yn system Cymru Gyfan gyda phob awdurdod yng Nghymru yn defnyddio'r un system. Mae Spydus yn darparu mwy o ymarferoldeb ar lefel leol a mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng Awdurdodau. | 1,2,3,5 |
| **Gwneud y defnydd gorau o sgriniau rhyngweithiol** | Lle bo modd, hyrwyddo gwasanaethau llyfrgell yn ddigidol trwy sgriniau yn y llyfrgell.<br><br>Cynhyrchu 'rhaglenni dogfen' hanesyddol byr, dwyieithog ar gyfer dathliadau hanes llyfrgell Aberdâr.<br><br>Gosod tair sgrin hyrwyddo ddigidol yn llyfrgelloedd Aberdâr, Pontypridd a Threorci. | Diwylliant a Chreadigrwydd<br>Gwybodaeth a Digidol<br><br>1,2,5,6 |
| **Nodi a gwerthuso adnoddau ar-lein newydd sy'n adlewyrchu anghenion cyfredol defnyddwyr.** | Prynwyd tanysgrifiad i wasanaeth papur newydd a chylchgronau ar-lein Pressreader. Daeth hwn yn wasanaeth Cymru gyfan yn 2024. | Diwylliant a Chreadigrwydd<br>Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol<br>Darllen<br>2,3,4,5,6,7 |
| **Cynnig cyfleoedd i wirfoddoli, gan roi profiad gwirfoddoli ystyrlon i bob person i'w gwneud yn fwy parod am swydd.** | Gweithio gyda Gwasanaeth Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant y Cyngor i ddarparu profiad gwaith, lleoliadau gwirfoddol a lleoliadau tymor hwy i dros 30 o unigolion. Mae lleoliad prentis dwy flynedd wedi arwain at aelod staff newydd parhaol. | Iechyd a Lles<br><br>3,4 |
| **Hyrwyddo a Chefnogi cynlluniau Presgripsiwn Llyfrau Cymru** | Hyrwyddo Presgripsiwn Llyfrau Cymru i Bobl Ifainc a Phresgripsiwn Llyfrau Cymru ar gyfer pobl â Dementia, a nifer o weithgareddau a diwrnodau gwybodaeth yn llyfrgelloedd Aberdâr, Pontypridd a Threorci. Hyrwyddo arddangosfa casgliad llyfrau unigol drwy daflen, poster a chyfryngau cymdeithasol ym mhob llyfrgell arall. | Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol<br><br>3,5 |
| **Annog staff i gefnogi mwy o grwpiau darllen** | Yn ogystal â pharhau i ddarparu lle i 8 grŵp darllen presennol, gan gynnwys Grŵp Amgen i bobl ddall a'r rhai â golwg rhannol, | Diwylliant a Chreadigrwydd<br>Iechyd a Lles |

| | | |
|---|---|---|
| | mae'r gwasanaeth yn darparu deunyddiau darllen i ddau grŵp allanol. Mae grwpiau darllen newydd hefyd wedi cychwyn mewn 4 llyfrgell arall. | Gwybodaeth a Digidol<br>Darllen<br><br>2,3,5,7 |
| **Nodi a gwneud cais am gyllid perthnasol** | Mae'r gwasanaeth wedi bod yn llwyddiannus wrth sicrhau nifer o geisiadau am gyllid gan gynnwys:<br><br>• Cais Estyn Allan gwerth £5,000 am offer digidol i ddenu cynulleidfaoedd i ddarllen ar lwyfannau digidol.<br>• £94,000+ ar gyfer gofod artist cydweithredol yn Hwb Diwylliannol Treorci.<br>• £240,000+ o gyllid Cymorth Sector Lleol Gwell gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd, cais ar y cyd â'r Gwasanaeth Treftadaeth i ymgysylltu cymunedau lleol â chasgliadau treftadaeth. | Diwylliant a Chreadigrwydd<br>Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol<br>Darllen<br><br>1,2,3,4,5,6,7 |
| **Parhau i weithio gydag Adran Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Llywodraeth Cymru (MALD gynt) i nodi adnoddau ar gyfer Cymru gyfan** | A ninnau'n aelodau o Gymdeithas y Prif Lyfrgellwyr (SCL), rydyn ni'n cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i adolygu'r cynnig digidol Cymru gyfan presennol, gan adnewyddu neu ddisodli adnoddau yn ôl yr angen, er enghraifft, Pressreader yn 2024. | Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol<br>Darllen<br><br>3,4,5,6,7 |
| **Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr , ymchwilio i gyflwyno cerdyn llyfrgell Cymru gyfan** | Mae mabwysiadu System Rheoli Llyfrgelloedd (LMS) Cymru gyfan, sef 'Spydus', gan bob un o'r 22 awdurdod yng Nghymru yn gam mawr tuag at gyflwyno cerdyn llyfrgell Cymru gyfan. | Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol<br>Darllen<br><br>4,5,6,7 |
| **Mewnosod Gwasanaeth Cynghori UnIBobUn yn y llyfrgell** | Mae'r gwasanaethau craidd a gaiff eu darparu gan UnIBobUn wedi'u hintegreiddio i Wasanaethau'r Llyfrgell ac mae mwy o gydweithio rhwng cydweithwyr wedi | Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol |

| | | |
|---|---|---|
| | datblygu. Mae hyn wedi arwain at Beilot Model Ymateb Graddol, gan weithio gyda Charfan Datblygu Cymunedol y Cyngor, sydd wedi gwella llwybrau gwybodaeth, cyngor a chymorth i drigolion. | 3,4,5 |
| **Hyrwyddo Sialens Ddarllen yr Haf i annog mwy o gyfranogiad** | Cafodd staff eu hannog i gyfrannu syniadau i hyrwyddo Sialens Ddarllen yr Haf ac i rannu mentrau llwyddiannus, gan arwain at gynnydd mewn cyfranogiad.<br><br>Yn ystod cyfnod y strategaeth ddiwethaf, cymerodd 3,338 o blant ran yn Sialens Ddarllen yr Haf. | Iechyd a Lles<br>Darllen<br><br>3,7 |
| **Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu lle ar gyfer arddangosfeydd** | Crëwyd lle arddangos pwrpasol yn llyfrgell Treorci ac mae rhaglen barhaus o arddangosfeydd gydag artistiaid lleol yn digwydd; mae grwpiau sy'n arddangos yn rheolaidd yn cynnwys Cymdeithas Gelfyddydau Ystradyfodwg a MudArtSoul Ceramics and Fine Art.<br><br>Mae llyfrgell Pontypridd wedi gweithio gyda nifer o artistiaid a grwpiau gan gynnwys Gŵyl Morfydd Owen, tra bod Aberdâr wedi cynnal nifer o arddangosfeydd gan gynnwys un ar gyfer pen-blwydd Rasys Ffordd Aberdâr ac ar gyfer Gŵyl Heddwch Cwm Cynon. Mae llyfrgelloedd llai hefyd yn cynnal arddangosfeydd. | Diwylliant a Chreadigrwydd<br>Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol<br><br>1,3,4,5,6 |
| **Creu Gwefan Dreftadaeth drwy Brosiect Diwygio Delweddau** | Mae gwefan newydd Ein Treftadaeth wedi'i chreu i ddisodli dwy wefan hŷn sydd wedi dyddio. Mae adborth gan y cyhoedd yn galonogol, gyda phobl yn canfod bod y wefan newydd yn gynhwysfawr, yn ddiddorol, ac yn hawdd i'w llywio. Mae pobl yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o gynnwys gan gynnwys ffotograffau a ffilmiau, hanesion llafar, a chyfrifon ysgrifenedig. Mae'r wefan yn rhoi llwyfan ar gyfer cofnod ar-lein o gofebion a cherfluniau Rhondda Cynon Taf. | Diwylliant a Chreadigrwydd<br>Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol<br><br>1,2,3,4,5,6 |
| **Gweithio gyda theatr y Parc a'r Dâr i ddatblygu** | Yn ystod cyfnod y strategaeth flaenorol, mae perthynas waith ardderchog wedi | DIWYLLIANT A CHREADIGRWYDD |

| | | |
|---|---|---|
| **a gwreiddio Hwb Diwylliannol Treorci** | datblygu rhwng y ddau leoliad. Caiff staff eu hannog i ystyried gweithio ar y cyd, ac mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:<br><br>• Achlysur Ein Cerddoriaeth, Ein Stori<br>• Lansio Llyfrau Blodeugerdd y Llyfrgell<br>• Achlysur Treth i Weithwyr Llawrydd<br>• Gofod artistiaid Co-lab llwyddiannus<br>• Marchnad Dydd Gŵyl Dewi, Gŵyl Fwyd yr Haf ac achlysur Gŵyl Parêd y Nadolig gyda 'Caru Treorci', yr Ardal Gwella Busnes | Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol<br><br>1,3,4,5 |
| **Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cynhwysiant digidol** | Gweithio ar y cyd â Chymunedau am Waith a Mwy i ail-lansio Dydd Gwener Digidol fel 'Gadewch i Ni Fynd yn Ddigidol', a pharhau i weithio gydag Addysg i Oedolion i ddarparu cefnogaeth gyfrifiadurol, rhifedd a llythrennedd sylfaenol.<br><br>Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU sy'n galluogi creu Swyddog Datblygu TGCh o fewn y Gwasanaeth sy'n datblygu ac yn cyflawni mentrau cynhwysiant digidol. | Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol<br>Darllen<br><br>3,4,5,6,7 |
| **Staff Cymorth i ennill cymwysterau ffurfiol** | Mae aelod o staff wedi cwblhau'r cymhwyster llyfrgell ffurfiol yn ddiweddar ac wedi ennill gradd mewn Rheolaeth Gwybodaeth a Llyfrgelloedd. | Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol<br><br>4,6 |
| **Datblygu a chreu ein cynnwys digidol ein hunain** | Yn rhan o brosiect Diwygio Delweddau a gaiff ei ariannu gan Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, mae nifer o recordiadau sain a fideo byr wedi'u cynhyrchu ac maen nhw ar gael trwy wefan Ein Treftadaeth.<br><br>Mae sawl prosiect unigol fel Prosiect y Cofebion Rhyfel a Phrosiect Treftadaeth Cwm Rhondda wedi cael eu gwneud ar gael yn ddigidol.<br><br>Mae'r Detholiad Llyfrgell a gaiff ei gyhoeddi'n flynyddol ar gael fel e-lyfr trwy blatfform Borrowbox. | Diwylliant a Chreadigrwydd<br>Iechyd a Lles<br>Gwybodaeth a Digidol |

| | | |
|---|---|---|
| | | 1,3,4,5,6 |
| **Adolygu ffioedd Llogi Ystafelloedd** | Mae adolygiad wedi mynd rhagddo ac mae cynllun newydd ar gyfer taliadau wedi'i gyflwyno. | Iechyd a Lles<br><br>4,6 |


Cysylltiad yn y Gymuned a Chynaliadwyedd
Lle diogel a dibynadwy
Gwasanaethau Lleol
Cydnerthedd economaidd
Lleoedd cynhwysol
Cydnerthedd cymdeithasol
HERE
Defnyddio adnodda'u effeithlon
Ailgylchu
Llai o effaith ar yr amgylchedd
Gwasanaethau'n cydweithio
Cydleoli
Lleihau unigedd
Treftadaeth a Chynhwysiant Diwylliannol
Gweithio ar y cyd
Diogelu casgliadau
Y Gymraeg ac ieithoedd y byd
Strategaeth Treftadaeth
Partneriaethau
Diogelu treftadaeth
Arddangosfeydd
Dad-wladychu casgliadau
Clywed pob llais
Cymunedau sy'n anodd eu cyrraedd
Iechyd a Lles
Diwylliant & Creadigrwydd
Llyfrgelloedd RhCT – Wedi'u cysylltu
Darllen
Gwybodaeth & Digidol
Using a tablet
Reading
Lleihau straen
Hwb gwybodaeth
Gwella geirfa
Canolbwyntio
Gwella cof a chadw
Gwella iechyd meddwl
Gwella empathi
Gwybodaeth, Cyngor, Cymorth a Digideiddio
Cywirdeb
Mynediad ar-lein
Partneriaethau
TG wedi'i ddiweddaru
Staff gwybodaeth
Staff medrus
Cymorth a chefnogaeth
Cynhwysiant digidol

# Ein Llyfrgelloedd mewn Rhifau

Mae Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn nodi sawl tuedd barhaus yn llyfrgelloedd Cymru, gan gynnwys Llyfrgelloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r defnydd yn dangos adferiad mewn ymweliadau corfforol a benthyca llyfrau ers pandemig COVID-19, ynghyd â symudiad parhaol tuag at wasanaethau digidol gwell a thrawsnewid llyfrgelloedd yn ganolfannau cymunedol amlbwrpas.

**Tueddiadau Allweddol**

- **Adferiad Ôl-bandemig:** Mae niferoedd benthycwyr gweithredol, llyfrau i oedolion, a llyfrau i blant i gyd wedi cynyddu'n sylweddol ers uchafbwynt pandemig COVID-19, er nad ydyn nhw wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig eto.
- **Symud i Ddigidol:** Cynyddodd defnydd e-lyfrau (e-lyfrau, e-sain, ac ati) yn sydyn yn ystod y cyfnod clo. Mae'r duedd yma wedi parhau i raddau helaeth gyda Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf yn gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn eu defnydd o e-lyfrau ac e-sain.
- **Pwysigrwydd Gofod Ffisegol:** Er gwaethaf y newid digidol, mae galw cryf a chynyddol am wasanaethau wyneb yn wyneb, pori corfforol, a rhyngweithio cymdeithasol, gyda chwsmeriaid yn gwerthfawrogi'r llyfrgell fel lle corfforol ar gyfer grwpiau cymunedol a darpariaeth TG.
- **Model Hwb Cymunedol:** Mae tuedd gynyddol o gydleoli llyfrgelloedd â gwasanaethau lleol eraill i greu hybiau cymunedol, gan gynnig ystod eang o gymorth, o geisiadau am Fathodyn Glas i adnoddau iechyd meddwl a chymorth cyflogaeth.
- **Iechyd a Lles:** Mae llyfrgelloedd yn cyfrannu'n weithredol at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar iechyd a lles, gan gynnig gwasanaethau megis cynllun llyfrtherapi Cymru gyfan, darllen yn dda, a rhaglenni penodol ar gyfer cymorth dementia.
- **Cynhwysiant Digidol:** Mae llyfrgelloedd yn darparu mynediad a chymorth TG cyhoeddus hanfodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau digidol, gan gynorthwyo defnyddwyr i chwilio am swyddi, creu CV, a sgiliau cyfrifiadurol sylfaenol.

Mae'r ffeithlun canlynol yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr ar draws cyfnod ein strategaeth flaenorol o fis Ebrill 2022 hyd at fis Tachwedd 2025.

## Llyfrgelloedd RhCT 2022/2025

**1,909,560**

o ymweliadau ledled 13 llyfrgell

**3,338**

o bobl wedi cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf

**12,089**

o achlysuron wedi'u cynnal

**236,099**

o lawrlwythiadau digidol, e-lyfrau ac ati


**132,288**

wedi mynychu achlysur yn y llyfrgell

**60k**

Nifer cyfartalog deiliad cerdyn llyfgell (y flwyddyn)

### Ymweliadau




**660,064**

Nifer cyfartalog y llyfrau i oedolion a phlant a gafodd eu benthyg y flwyddyn (2022/25)

### Ein Gweledigaeth

Bod yn wasanaeth llyfrgell gweladwy, hygyrch a chynhwysol yng nghanol ein cymunedau, gan wella bywyd a lles diwylliannol, addysgol ac emosiynol ein holl drigolion a thrwy fod yn wasanaeth sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.

Wrth wraidd ein gwaith mae ymrwymiad i:

- Ddarparu gwasanaethau ac adnoddau dwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Ymgysylltu â chymunedau i ddeall eu hanghenion ac ymateb iddyn nhw.
- Ehangu lleisiau aelodau'r gymuned sy'n anaml yn cael eu clywed.
- Cydweithio â phartneriaid i sicrhau bod gan gwsmeriaid fynediad at yr ystod lawn o ddarpariaeth sydd ei hangen arnyn nhw.
- Cadw llyfrgelloedd wrth wraidd eu cymunedau.
- Cefnogi a datblygu System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan gyda'r nod o greu Platfform Llyfrgell Ddigidol Cenedlaethol i Gymru.

# Ein Blaenoriaethau Strategol Allweddol

Rydyn ni wedi nodi tair blaenoriaeth strategol allweddol a fydd yn gymorth i gyflawni gweledigaeth ein Strategaeth Llyfrgelloedd dros y 5 mlynedd nesaf:

## Cadw'r Gwasanaeth yn Berthnasol

- Harneisio technoleg i ddiwallu anghenion defnyddwyr sy'n esblygu.
- Diwallu anghenion sy'n esblygu trwy wasanaethau sy'n gysylltiedig yn ddi-dor ac yn amserol.
- Uwchsgilio staff i ddarparu cefnogaeth ymatebol sy'n barod ar gyfer y dyfodol.

## Gwella Profiadau yn y Llyfrgell

- Hyrwyddo llyfrgelloedd fel canolfannau bywiog a chroesawgar yng nghanol bywyd cymunedol yn Rhondda Cynon Taf.
- Annog cyfranogiad ehangach mewn gwasanaethau ac adnoddau amrywiol.
- Cyflawni potensial unigol a chymunedol drwy ysbrydoli dysgu, creadigrwydd ac ymgysylltiad cymunedol.

## Datblygu Gwasanaethau sy'n Addas ar gyfer y Dyfodol

- Cefnogi llythrennedd a dysgu gydol oes drwy achlysuron a chyfleoedd i bob oed.

- Darparu mannau diogel a chynhwysol, yn ffisegol ac yn ddigidol.
- Cyflwyno canllawiau iechyd a lles yn rhan ganolog o'n gwasanaeth llyfrgell.
- Dathlu diwylliant a threftadaeth drwy adlewyrchu cymunedau amrywiol a dad-wladychu archifau.
- Meithrin creadigrwydd ac arloesedd i gyfoethogi economïau a chyflogaeth lleol.

## Sut byddwn ni'n cyflawni hyn?

## Blaenoriaeth Strategol: 'Cadw'r Gwasanaeth yn BERTHNASOL'

Mewn oes o newid technolegol cyflym a disgwyliadau cymunedol sy'n newid, mae'n hanfodol bod Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Cyngor yn parhau i fod yn ymatebol, yn gysylltiedig, ac yn canolbwyntio ar y dyfodol. Drwy harneisio'r offer a'r llwyfannau digidol diweddaraf, mae modd i ni sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad at wasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion sy'n esblygu mewn mannau ffisegol ac ar-lein. Ar yr un pryd, bydd ein gallu i addasu'n gyflym i heriau a chyfleoedd newydd yn caniatáu inni ddarparu cefnogaeth amserol a pherthnasol sy'n adlewyrchu realiti byd sy'n newid. Yn ganolog i'r uchelgais yma mae ymrwymiad i uwchsgilio ein staff, gan roi'r wybodaeth a'r hyder iddyn nhw i ddarparu gwasanaethau arloesol o ansawdd uchel sy'n cadw'r llyfrgell wrth wraidd bywyd cymunedol.

| Cam Gweithredu |
|---|
| **Gwella'r rhaglen ddigideiddio** a sicrhau bod adnoddau ar gael drwy'r wefan 'Ein Treftadaeth' sydd wedi'i ddiweddaru, gan sicrhau bod casgliadau ar gael ar unrhyw adeg a chynnal presenoldeb cryf ar-lein. |
| **Mabwysiadu datblygiadau TG newydd** a thrin a thrafod gwasanaethau digidol arloesol i wella profiadau defnyddwyr y llyfrgell. |
| **Uwchsgilio staff y llyfrgell** fel bod modd iddyn nhw ddarparu gwasanaethau sy'n parhau i fod yn berthnasol ac yn ymatebol i anghenion defnyddwyr sy'n newid. |
| **Uwchraddio offer ledled llyfrgelloedd** ac integreiddio technolegau sy'n dod i'r amlwg megis Rhith-realiti a Deallusrwydd Artiffisial. |
| **Ehangu mynediad at adnoddau amrywiol ar-lein**, cynnal y cynnig eang o e-lyfrau, e-sain, cylchgronau digidol, papurau newydd, a chronfeydd data; a pharhau i weithio gydag Adran Ddiwylliant Llywodraeth Cymru a Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr (SCL) i nodi adnoddau posibl ar gyfer Cymru gyfan. |

## Blaenoriaeth Strategol: 'Gwella PROFIADAU yn y Llyfrgell'

Mae llyfrgelloedd CBSRhCT yn fwy nag adeiladau; maen nhw'n fannau cymunedol bywiog lle mae diwylliant, dysgu a chyfleoedd yn dod at ei gilydd. Drwy osod llyfrgelloedd wrth wraidd bywyd diwylliannol Rhondda Cynon Taf, mae modd i ni ysbrydoli creadigrwydd,

cefnogi twf personol, ac annog cyfranogiad ar draws pob oedran a chefndir. Mae ehangu mynediad at ein hamrywiaeth o wasanaethau yn sicrhau bod gan bob preswylydd gyfle i gyflawni ei botensial, gan gryfhau rôl llyfrgelloedd fel canolfannau croesawgar a chynhwysol sy'n cyfoethogi bywyd bob dydd.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| **Cyflwyno rhaglen ffocws o achlysuron addysgol a difyr** i blant o bob oed. |
| **Sicrhau bod gan drigolion fynediad** at ystod eang o gyfleoedd diwylliannol a dysgu amrywiol trwy lyfrgelloedd a phartneriaid. |
| **Cydweithio â phartneriaid, cydweithwyr, a gwasanaethau eraill y Cyngor** i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth cynhwysfawr ar lesiant ac iechyd. |
| **Gweithio gyda phartneriaid a gwirfoddolwyr treftadaeth, celfyddydau a diwylliannol** i ddatblygu rhaglen amrywiol o weithgareddau diwylliannol. |
| **Adolygu polisïau'r llyfrgell** i sicrhau eu bod yn gefnogol ac yn deg ac yn canolbwyntio ar leihau rhwystrau. |
| **Buddsoddi mewn hyfforddiant staff** i rymuso gweithwyr gyda'r wybodaeth a'r sgiliau i ddarparu gwasanaeth rhagorol sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. |
| **Casglu a gweithredu ar adborth defnyddwyr** drwy arolygon, blychau awgrymiadau a grwpiau ffocws, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan fewnbwn y gymuned. |
| **Ehangu mynediad at gyfleoedd dysgu i bawb**, gan barhau i gydweithio â chydweithwyr a phartneriaid i adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol. |

## Blaenoriaeth Strategol: 'Datblygu Gwasanaethau sy'n ADDAS AR GYFER Y DYFODOL'

Er mwyn parhau i fod yn hanfodol yn y blynyddoedd i ddod, rhaid i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd esblygu i adlewyrchu anghenion newidiol ein cymunedau. Mae hyn yn golygu cefnogi llythrennedd a dysgu gydol oes, cynnig mannau diogel a chynhwysol ar-lein ac yn bersonol, a hyrwyddo mentrau iechyd a lles. Drwy ddathlu diwylliant a threftadaeth, meithrin creadigrwydd, a chroesawu arloesedd, mae modd i ni sicrhau bod llyfrgelloedd yn parhau i ysbrydoli, addysgu, a chyfrannu at dwf economaidd lleol. Bydd ein hymrwymiad i ddigideiddio, technolegau newydd, a rhaglenni amrywiol yn cadw'r gwasanaeth yn ddeinamig, yn berthnasol, ac yn barod ar gyfer y dyfodol.

| **Cam Gweithredu** |
|---|
| **Hyrwyddo darllen a defnyddio llyfrgelloedd** fel rhan hanfodol o fywydau cymdeithasol ac addysgol trigolion, gan amlygu ei gyfraniad at iechyd meddwl a lles. |
| **Gwella gwasanaethau** drwy ddiwallu anghenion pobl a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd o'u cyflawni, wedi'u harwain gan adborth. |

| |
|---|
| **Sicrhau cynrychiolaeth gynhwysol** fel bod pawb yn cael eu cynrychioli yn ein gwaith diwylliant a threftadaeth, mynd i'r afael ag ymyleiddio'r gorffennol trwy ddad-wladychu, a dathlu cymunedau amrywiol trwy ein casgliadau, arddangosfeydd ac achlysuron. |
| **Hwyluso cydweithio a lleoli llyfrgelloedd fel canolfannau cymunedol canolog** drwy gefnogi twf mentrau cydnerthedd a chryfhau partneriaethau â'n cymunedau, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. |

# Deilliannau ac Effeithiau:

# Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi llwyddo:

Mae ein Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn mesur llwyddiant drwy gymysgedd o ddata meintiol (ymweliadau â llyfrgelloedd, benthyciadau llyfrau, a phresenoldeb mewn achlysuron) ac adborth defnyddwyr ansoddol (arolygon boddhad, asesiadau effaith, ffurflenni adborth).

Bydd pobl yn:

**Ennill gwybodaeth a sgiliau drwy ddefnyddio'r llyfrgell** – Mae llyfrgelloedd yn darparu mynediad am ddim at lyfrau, adnoddau ar-lein, llwyfannau dysgu, a staff medrus sy'n cynnig arweiniad a chefnogaeth. Drwy gyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol - megis gweithdai, mannau astudio, a hyfforddiant digidol – mae modd i bobl ehangu eu gwybodaeth, datblygu sgiliau newydd, a dilyn dysgu gydol oes.

**Llwyddiant yw:**
Pobl yn nodi sgiliau gwell, mwy o ymgysylltiad ag adnoddau dysgu, a thystiolaeth o gynnydd personol neu addysgol. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy Ddangosydd Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru B1 – Gwneud gwahaniaeth (canlyniadau arolwg cwsmeriaid a datganiad effaith) a'r canlynol:

- Gwerthuso prosiectau a gaiff eu hariannu, megis y prosiect Diwygio Delweddau a gaiff ei ariannu gan Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a bod targedau'n cael eu cyflawni.
- Mae adborth gan bobl sy'n mynychu gweithgareddau/sesiynau llyfrgell yn cofnodi bod o leiaf 90% o'r mynychwyr yn nodi bod llyfrgelloedd wedi eu helpu i gyflawni eu nodau.

**Ymuno ag achlysuron darllen a diwylliannol a gaiff eu trefnu gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd** - Mae llyfrgelloedd yn cynnal rhaglen gyfoethog o weithgareddau, gan gynnwys grwpiau darllen, sgyrsiau awduron, sesiynau adrodd straeon, arddangosfeydd a gweithdai creadigol. Mae'r achlysuron yma'n annog cyfranogiad mewn diwylliant, yn meithrin cariad at ddarllen, ac yn gwneud celfyddydau a llenyddiaeth yn hygyrch i bawb.

**Llwyddiant yw:**

Lefelau cryf o ymgysylltu, cyfranogiad amrywiol, ac adborth cadarnhaol am gyfoethogi a mwynhad diwylliannol. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy Ddangosydd Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru B2 – Defnydd o'r Llyfrgell (nifer y llyfrau a'r lawrlwythiadau electronig), a'r canlynol:

- Nifer y plant sy'n cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf.
- Nifer y mynychwyr mewn achlysuron darllen neu ddiwylliannol.

**Teimlo'n rhan o gymuned gryfach, fwy cysylltiedig** - Ac yntau'n fannau diogel, niwtral a chroesawgar, mae llyfrgelloedd yn dod â phobl at ei gilydd. Drwy weithgareddau cymunedol, grwpiau cymdeithasol, cyfleoedd gwirfoddoli, a rhyngweithiadau bob dydd, mae llyfrgelloedd yn helpu i feithrin cysylltiadau cymdeithasol a chryfhau cydlyniant cymunedol.

**Llwyddiant yw:**

Trigolion yn adrodd bod y llyfrgell yn eu helpu i deimlo'n gysylltiedig, yn cael eu cefnogi, ac yn rhan o'u cymuned leol. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy Ddangosydd Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru B2 – Defnyddio'r Llyfrgell (cyfanswm nifer yr ymweliadau â safleoedd llyfrgell), a'r canlynol:

- Nifer y mynychwyr mewn achlysuron llyfrgell.
- Gwerthuso prosiectau a gaiff eu hariannu, megis y prosiect Diwygio Delweddau a gaiff ei ariannu gan Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, a bod targedau'n cael eu cyflawni.
- Holiadur Bodlonrwydd Cwsmeriaid.

**Cael eich cynnwys yn y byd digidol** - Mae llyfrgelloedd yn darparu Wi-Fi am ddim, cyfrifiaduron personol, dyfeisiau, a chymorth digidol gan staff. Maen nhw'n cynnig sesiynau sgiliau, cymorth un-i-un, a mynediad at wasanaethau ar-lein - gan sicrhau bod modd i bawb gymryd rhan yn y byd digidol yn hyderus, waeth beth fo'u hincwm neu eu profiad.

**Llwyddiant yw:**

Mwy o bobl yn defnyddio offer digidol yn hyderus, yn cael mynediad at wasanaethau ar-lein, ac yn goresgyn allgáu digidol. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy Ddangosydd Ansawdd

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru B2 – Defnyddio'r Llyfrgell (cyfanswm nifer y cwsmeriaid a gafodd gymorth drwy gymorth anffurfiol yn ystod y flwyddyn), a'r canlynol:

- Nifer y mynychwyr mewn achlysuron llyfrgell sydd wedi'u hanelu at wella sgiliau digidol. e.e. dosbarthiadau cyfrifiadurol, sesiynau 'Gadewch i ni fynd yn ddigidol'.

**Ailddarganfod darllen fel gweithgaredd hamdden pleserus (yn y llyfrgell neu ar-lein)** - Trwy arddangosfeydd llyfrau deniadol, argymhellion darllenwyr, e-lyfrau, llyfrau sain, a hyrwyddiadau darllen hamdden, mae llyfrgelloedd yn gwneud darllen yn hawdd ac yn bleserus. Mae amgylchedd ymlaciol y llyfrgell, a chyfleustra mynediad digidol 24/7, yn annog pobl i ailgysylltu â darllen er mwyn pleser.

**Llwyddiant yw:**

Ymgysylltiad cynyddol â darllen, yn y llyfrgell ac ar-lein, ac adborth cadarnhaol am ddarllen er pleser. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy Ddangosydd Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru B2 – Defnydd o'r Llyfrgell (nifer y llyfrau a'r lawrlwythiadau electronig), a'r canlynol:

- Nifer y plant sy'n cymryd rhan yn Sialens Ddarllen yr Haf.
- Nifer y grwpiau darllen a gaiff eu cynnal mewn llyfrgelloedd.

**Gwella eu hiechyd a'u lles drwy ddefnyddio gwasanaethau llyfrgell** - Mae llyfrgelloedd yn cefnogi iechyd a lles drwy ddarllen er mwyn pleser, cysylltiad cymdeithasol, mannau diogel, gwybodaeth iechyd, a rhaglenni megis Presgripsiwn Llyfrau. Mae gweithgareddau sy'n lleihau unigedd, yn hyrwyddo ymlacio, ac yn annog creadigrwydd hefyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at iechyd meddwl a chorfforol.

**Llwyddiant yw:**

Defnyddwyr yn nodi gwell iechyd a lles, llai o unigedd, ac iechyd emosiynol neu feddyliol gwell oherwydd gwasanaethau llyfrgell. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy Ddangosydd Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru B4 (cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles - Disgrifiad o'r mathau o wasanaethau, adnoddau a gweithgareddau y mae eich gwasanaeth llyfrgell yn eu darparu i gefnogi iechyd a lles unigol a chymunedol, astudiaeth achos i ddangos effaith un neu fwy o agweddau ar ddarpariaeth iechyd a lles ar unigolyn neu grŵp, a nifer y benthyciadau o deitlau o'r gyfres Presgripsiwn Llyfrau Cymru yng Nghymru), a'r canlynol:

- Arolwg boddhad cwsmeriaid, ymateb i gwestiynau yn ymwneud ag iechyd a lles.

**Cymryd rhan fwy gweithredol ym mywyd y gymuned drwy gyfleusterau llyfrgell** - Mae llyfrgelloedd yn grymuso pobl i gymryd rhan drwy gynnig mannau cyfarfod, rolau gwirfoddoli, pwyntiau gwybodaeth ddinesig, a chyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau

cymunedol. Maen nhw'n gweithredu fel canolfannau hygyrch lle mae modd i drigolion gymryd rhan, rhannu sgiliau a chyfrannu at fywyd lleol.

**Llwyddiant yw:**

Trigolion yn defnyddio llyfrgelloedd fwyfwy ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i gyfrannu at fywyd lleol. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy Ddangosydd Ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru B5 (presenoldeb defnyddwyr mewn achlysuron llyfrgell), a'r canlynol:

- Nifer y gweithgareddau a gaiff eu cynnal mewn llyfrgelloedd.
- Nifer y gwirfoddolwyr mewn llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn.